# OE-010 - Mudiad Meithrin

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Bil arfaethedig – Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) | Proposed Outdoor Education (Wales) Bill

Ymateb gan Mudiad Meithrin | Evidence from Mudiad Meithrin

www.meithrin.cymru
Y Ganolfan Integredig
Boulevard de Saint-Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PD

mudiad meithrin

Sam Rowlands AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28ain Chwefror 2023

Annwyl gyfaill,

Diolch am y cyfle i gyflwyno rhai sylwadau ar y Bil Addysg Awyr agored arfaethedig.

Yn ddibynnol ar ei gyfansoddiad a'i gynnwys, mae'n bosibl y byddai'r Bil yma yn adeiladu'n berffaith ar y gwaith rhagorol mae'n lleoliadau ni (Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd dydd) yn gwneud wrth sicrhau mynediad cyson at y tu allan i blant bach ddysgu trwy chwarae yn Gymraeg. Mae hynny yn elfen greiddiol o bedagogeg Dysgu Sylfaen y Cwricwlwm ac yn hybu llesiant a ffyniant plant bach yn gyffredinol.

Gwyddom o sawl ffynhonnell o dystiolaeth fod dysgu yn yr awyr agored yn meddu ar fuddiannau lu i blant bach.

Yn anffodus nid oedd Mudiad Meithrin yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ariannu myfyrwyr ar gynllun peilot o gymhwyster newydd rydym wedi'i addasu i'r Gymraeg sef Bod y Tu Allan - Lefel 3 (gyda'r fersiwn gwreiddiol o'r cymhwyster wedi'i baratoi gan yr Athro Jan White).

Er hynny, byddwn yn mynd ati cyn hir i hyrwyddo'r peilot ar ôl i 6 o'n aseswr gymhwyso eleni ar y 25 o Ebrill 2023. Y gobaith yw cofrestru 12 ymarferydd ar y cwrs, a'u bod yn cymhwyso erbyn diwedd 2024. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru sydd wedi'n hariannu i fedru cymryd 6 asesydd trwy'r cymhwyster i fod yn aseswyr ar y cwrs lefel 3 yma, ac i dalu am gyfieithu'r cwrs.

Mae'r cwrs ei hun yn cyd-fynd gyda'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn berffaith. Mae'r myfyrwyr yn dysgu am weithio gyda'r tymhorau, y tywydd, deunyddiau naturiol eu cynefinoedd a defnyddio'r tu allan ble bynnag y lleolir hwy.

I grynhoi felly, ein diddordeb ni fyddai sicrhau fod y Bil yn rhoi sylw teilwng i anghenion ein dysgwyr ieuengaf wrth ddysgu yn yr awyr agored gan hefyd fanteisio ar y cyfle i sicrhau fod



MARC ELUSEN DDIBYNADWY TRUSTED CHARITY MARK LEFEL LEVEL 2 NCVO Dyfarnwyd: Chwefror 2020 Awarded: February 2020
GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU WELSH CHARITY AWARDS Rhestr Fer Gwobrau Elusennau Cymru 2019
Enillydd 2017 Winner Gwobrau Trydydd Sector Cymru Third Sector Awards Cymru Cefnogir gan Class Networks Supported by Class Networks
CIOL Business Partner 2022-2023
CYMRAEG
academi datblygu • hyfforddi • meithrin

Prif Weithredwr / Chief Executive: Dr Gwenllian Lansdown Davies. Elusen Gofrestredig/Registered Charity 1022320. Cwmni Cyfyngedig dan Warant/Company Limited by Guarantee 2164058. Cofrestrwyd yng Nghymru/Registered in Wales

cyfleon gwirioneddol i ddysgu trwy'r Gymraeg (gan felly blethu gyda'r Bil Addysg Gymraeg sydd ar y gweill).

Yr eiddoch yn gywir,

Dr Gwenllian Lansdown Davies

Prif Weithredwr



Prif Weithredwr / Chief Executive: Dr Gwenllian Lansdown Davies. Elusen Gofrestredig/Registered Charity 1022320. Cwmni Cyfyngedig dan Warant/Company Limited by Guarantee 2164058. Cofrestrwyd yng Nghymru/Registered in Wales